

Hysbysiad Preifatrwydd

Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru (CAFC)

1. Mae Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru (CAFC) wedi'i chofrestru â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) fel Rheolydd Data, rhif cofrestru Z6492788
2. Ein cyfeiriad cofrestredig yw Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanellwedd, Llanfair-ym-Muallt, LD2 3SY.
3. Rydym yn Elusen sydd wedi'i chofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau (Rhif 251232)
4. Dylai unrhyw gwynion ynghylch ein defnydd o ddata, ceisiadau am gopiâu o'r data hwnnw ac unrhyw broblemau gyda'i gasglu, ei gadw a chael gwared arno gael eu cyfeirio at y Rheolydd Data yn y cyfeiriad uchod.
5. Sefydliad aelodaeth ydym.
6. Mae'r Hysbysiad hwn yn disgrifio'r wybodaeth y gallwn ei chasglu amdanoch chi, sut y caiff ei defnyddio neu'i rhannu gennym a'ch hawliau chi yn y cyswllt hwn.
7. Mae'r wybodaeth a ddaliwn amdanoch yn cael ei chyflenwi inni gennych chi, neu gan drydydd parti gyda'ch caniatâd chi neu ar ryw sail



Noddwr / Patron: Her Majesty The Queen
Prif Weithredwr / Chief Executive: Steve Hughson
Cadeirydd y Cyngor / Chairman of Council: David Lewis DL FRICS FLAA FRAGS

Company Registration No.: 892851 Wales Charity Registration No.: 251232 VAT No.: 134 6903 69

gyfreithiol arall, yng nghwrs ein buddiannau cyfreithlon fel sefydliad aelodaeth ac Elusen, yn darparu cefnogaeth a chymorth i'w aelodau.

8. Rydym ond yn casglu data amdanoch yr ydych chi'n ei gyflenwi inni neu y gofynnwn ichi amdano heblaw fel yr amlinellir ym mharagraff 17 isod.
9. Rydym ond yn dal data os oes gennym sail gyfreithlon dros wneud hynny.
10. Mae'r data a gadwn wedi'i gyfyngu i'r data sydd ei angen arnom i ymgymryd â'n gwaith fel Cymdeithas ac fel Elusen.
11. Rhaid i bob sefydliad sy'n prosesu data personol ond gwneud hynny am reswm cyfreithlon. Felly rydym ond yn dal ac yn/neu'n prosesu data am un o'r rhesymau canlynol:
 - 11.1. Gyda'ch caniatâd;
 - 11.2. I gyflawni neu ragweld llunio contract;
 - 11.3. I gyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol;
 - 11.4. I ddiogelu buddiannau hanfodol gwrthrych data neu rywun arall;
 - 11.5. I gyflawni gorchwyl er budd y cyhoedd neu yn rhinwedd swydd;
 - 11.6. Er hyrwyddo ein buddiannau cyfreithlon ein hunain neu drydydd parti.
12. Mae gennych yr hawl i gael eich hysbysu am y wybodaeth a ddaliwn amdanoch ac ar gyfer beth y'i defnyddiwn; cewch ofyn am gopi o unrhyw wybodaeth bersonol a ddaliwn; cewch ofyn inni gywiro unrhyw anghywirdeb; cewch ofyn inni stopio anfon gwybodaeth atoch ac

mewn rhai amgylchiadau cewch ofyn inni ddileu'r holl ddata personol a ddaliwn amdano ch cyn inni ei ddileu.

13. Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth a ddaliwn ar sail eich caniatâd fel aelodau o'r Gymdeithas; er hyrwyddo contract neu ragweld llunio contract, neu ar sail buddiant dilys.
14. Mae gwybodaeth sy'n manylu ar eich hawliau yn y cyswllt hwn i'w chael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Os ydych yn anfodlon ynghylch sut ydym yn delio gyda chi, cewch gwyno iddynt.
15. I ofyn am gael at yr hyn a amlinellwyd ym mharagraff 8 uchod cysylltwch â ni yn y cyfeiriad uchod neu drwy'r manylion cysylltu ar ein gwefan.
16. Fe allem gysylltu â chi yn y fath fodd ac at ddibenion y byddech yn rhesymol yn disgwyl inni wneud hynny.
17. Byddwn yn cadw'ch data oni bai eich bod yn gofyn inni ei ddileu am gyhyd ag y mae angen iddo gael ei ddal er hyrwyddo ein hamcanion elusennol; er dibenion gweinyddol angenrheidiol; er hyrwyddo unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol a ddaliwn ac os oes yna fuddiannau busnes o'r pwys mwyaf, megis diogelwch a diogeledd eraill i wneud hynny.
18. Byddwn yn rhannu'ch gwybodaeth bersonol yn fewnol a gyda thrydydd partïon a rhanddeiliaid eraill, yn cynnwys adrannau'r llywodraeth, a ddelir er hyrwyddo ein hamcanion elusennol; er dibenion gweinyddol angenrheidiol; er hyrwyddo unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol a ddaliwn ac os oes yna fuddiannau busnes o'r pwys mwyaf, megis diogelwch a diogeledd eraill i wneud hynny.

19. Mae ein gwefan yn defnyddio “cwcis” at ddibenion dadansoddol. Trwy’u defnyddio rydym yn gallu olrhain ymwelwyr â’n gwefan i wella’r profiad i’r defnyddiwr. Er ei fod yn olrhain cyfeiriadau IP, ni chaiff unrhyw ddata personol heblaw’r cyfeiriad ei gasglu.
20. Mae gennym Bolisi Diogelu Data y gellir ei archwilio ar gais rhesymol.
21. Fe all y polisi hwn gael ei ddiweddarau o bryd i’w gilydd. Os digwydd hynny byddir yn gwneud cyhoeddiad ar y wefan.



Steve HUGHSON

Prif Weithredwr

Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru

25^{ain} Mai 2018